**<u>Atodiad 3 – Effaith Gofodol y Strategaeth : Ymatebion lleol.</u>**

Mae i'r strategaeth fwy o effaith ar rai cymunedau yn yr awdurdod, yn benodol felly yn yr wyth cymuned ble yr argymhellir newid i'r trefniant presennol.

Crynhoir yr ymatebion yn ôl pob cymuned isod

Yn y 4 cymuned yr argymhellir symud o'r ddarpariaeth bresennol i drefniant Llyfrgell Gymunedol nodir yr ymatebion canlynol :-

1) Penygroes:- Mae Antur Nantlle a Chyngor Cymuned Llanllyfni wedi datgan cefnogaeth mewn egwyddor i addasu a chefnogi trefniadau Llyfrgell Gymunedol ym Mhenygroes. (atodiad 3a)
2) Nefyn :- Rydym wedi cyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Tref ac mae datganiad o barodrwydd i gydweithio i adnabod y cyfleon i sefydlu llyfrgell gymunedol; ond fod y Cyngor yn awyddus i gael mwy o amser i drafod rhai o'u pryderon cyn penderfynu'n derfynol.(atodiad 3b)
3) Criccieth :- Mae'r Cyngor Tref wedi datgan cefnogaeth i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell i sefydlu trefniant llyfrgell gymunedol yn y dref, ond yn datgan ffafriaeth i sefydlu'r trefniant hwnnw drwy adleoli i safle Encil y Coed ar y cyd gyda Chanolfan Ddydd, Gwasanaeth Oedolion, yn hytrach na pharhau yn y safle presennol.(atodiad 3c)
4) Bethesda :- Rydym wedi cyfarfod gyda'r cynrychiolaeth o'r tri cyngor cymuned sy'n gwasanaethu dalgylch y llyfrgell yn Nyffryn Ogwen ac wedi derbyn ymateb ysgrifenedig gan 2 ohonynt yn nodi cefnogaeth mewn egwyddor i gydweithio ar sefydlu llyfrgell gymunedol ym Methesda. (atodiadau 3ch/3d)

Yn y pedwar cymuned yr argymhellir dod a'r ddarpariaeth bresennol o gynnal adeilad llyfrgell i ben nodir yr ymatebion canlynol:-

1) Llanberis :- Nid yw Cyngor Cymuned Llanberis wedi ymateb i'r strategaeth, er fod sawl ymdrech wedi bod i ymgysylltu a cheisio eu barn.
2) Harlech :- Mae'r cyngor tref wedi darparu ymateb (atodiad 3dd) yn datgan gwrthwynebiad i'r hyn a argymhellir i Lyfrgell Harlech. Mae'r aelod lleol yn awyddus i weld y llyfrgell yn parhau yn y dref ond wedi ei hadleoli i'r ysgol uwchradd.
3) Penrhyndeudraeth:- Mae'r cyngor cymuned wedi datgan gwrthwynebiad i'r hyn a argymhellir ond parodrwydd i sefydlu dolen ynghyd a chais i liniaru'r effaith drwy drefnu i'r Gwasanaeth Teithiol ddod i'r pentref. Mae Cwmni Deudraeth Cyf wedi datgan parodrwydd i gydweithio ar sefydlu dolen. (atodiad 3e/3f)
4) Deiniolen :- Mae'r cyngor cymuned wedi datgan gwrthwynebiad i'r hyn a argymhellir(atodiad 3ff). Cyflwynodd y Cyngor Cymuned gais i ni ystyried y canlynol yn hytrach na'r hyn yr argymhellir :-

    Cwtogi oriau agor o 8 awr yr wythnos i 6 awr yr wythnos

    Symud y llyfrgell i Ysgol Gwaun Gynfi

Rydym wedi ystyried yr awgrymiadau hyn ac wedi adrodd yn nol ar ein casgliadau i gynrychiolaeth o'r cyngor cymuned a'r aelod lleol.

Nid ydym o'r farn fod cynnal llyfrgell am lai na 10 awr yr wythnos yn ddarpariaeth effeithlon, yn unol a chanfyddiadau'r "Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014" a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw symud i'r Ysgol yn opsiwn, er y'i cefnogir yn lleol, oherwydd nid oes capasiti yn yr adeilad yn ôl cyfrifiadau'r Adran Addysg i ryddhau rhan o brif adeilad yr ysgol i'r diben yma. Mae'r Adran Eiddo wedi ystyried rhan is-law o'r adeilad (sydd ddim yn ffurfio rhan o gyfrifiadau capasiti ar gyfer addysg) ond daethpwyd i'r casgliad oherwydd y strwythur, gwneuthuriad a materion iechyd a diogelwch nad yw'n addas na hyfyw ar gyfer ei drosi i ddefnydd cyfunol cyhoeddus megis Llyfrgell.

Rydym bellach yn cydweithio gyda'r aelod lleol, y cyngor cymuned a Menter Fachwen ar adnabod datrysiadau eraill. Mae Menter Fachwen yn awyddus i gydweithio ar sefydlu dolen gymunedol ar safle presennol y Llyfrgell, ynghyd a chyfleusterau eraill megis cyfnewidfa lyfrau, clwb gwaith cartref, cysylltedd cyhoeddus am ddim i'w rhyngrwyd (atodiad 3g).

Byddai trefniant fel hyn yn caniatáu mynediad drwy wasanaeth clic a chasglu y ddolen gymunedol i lyfrau newydd. Fodd bynnag mae cynrychiolaeth o'r cyngor cymuned yn parhau i nodi pryder na fyddai drefniant o'r fath yn diwallu'r angen sy'n lleol am fynediad i lyfrau newydd ar silffoedd y gellid pori drwyddynt.

ANTUR NANTLLE CYF
GWEITHIO ER LLES YR ARDAL

31 Mai 2016

Catrin Thomas
Uwch-reolwr Dysgu Cymunedol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Catrin,

**PAR: EICH LLYTHYR DYDDIEDIG 24 MAI 2016**

Diolch i chi a Hywel am gyfarfod yn ddiweddar gydag Owain a minnau, ac am eich llythyr.

Mae Bwrdd yr Antur wedi trafod eich llythyr a gofyn i mi ymateb fel a ganlyn. Dilynaf eich trefn rhifo chi wrth ymateb er eglurdeb.

Yn gyntaf oll, dylwn ddweud pa mor bwysig yw'r gwasanaeth Llyfrgell i ni ym Mhenygroes, a diolch am eich parodrwydd i drafod yn agored gyda ni.

1. £6,292.80 yw rhent blynyddol presennol Llyfrgell Penygroes. Fel trafodwyd yn ein cyfarfod, mae'r Antur yn rhedeg rhaglen cynnal a chadw blynyddol ar y 10 adeilad rydym yn eu rhedeg er lles yr ardal yn y Dyffryn, ac eleni mae costau uwch nag arfer yn ein hwynebu. Byddai lleihad yn eich rhent i £5,000 y flwyddyn, i gychwyn o 1 Ebrill 2017 yn newid gallwn ei dderbyn heb anawsterau gormodol i wasanaethau craidd yr Antur. Yn ogystal, rydym yn awyddus i gydweithio gyda chi cymaint â phosib a byddwn yn falch o gynnig defnydd y cyntedd (h.y. cadw maint y Llyfrgell presennol) i chi yn y rhent is yma. Rydym yn gobeithio byddai hyn yn lleihau gwaith a chostau aildrefnu i chi fel gwasanaeth, ac yn cadw'r "Llyfrgell presennol" o ran delwedd y cyhoedd.

2. Yn unol â'r uchod, mae'r Antur yn fodlon cyfrannu £768.50 tuag at gostau'r cyswllt rhwydwaith cyfrifiadurol. Byddai hyn yn golygu cyfanswm arbediad o £2,061.30.

**Antur Nantlle Cyf**
Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle, 20 Heol y Dŵr, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6LR

**01286 882688 | post@anturnantlle.com | www.anturnantlle.com**

Cofrestrwyd yng Nghymru fel cwmni rhif 2618216 gyda rhif TAW 560036768

3. Ynglŷn â’r bwriad i leihau oriau agor, mae’r Antur yn awyddus i gadw’r oriau agor fel ag y maent, ond ni allwn ni ariannu hyn yn uniongyrchol. Byddwn yn barod i weithio gyda chi i gyflwyno’r sefyllfa i’r Cyngor Cymuned yn y gobaith bydd modd iddynt hwy fel corff lenwi’r bwlch fel na fydd angen lleihau oriau agor o gwbl.

Mae’r Bwrdd Rheoli yn derbyn y sefyllfa heriol ariannol sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym yn gobeithio fod yr uchod yn deg a rhesymol i chi ac i ninnau wrth geisio gwarchod y gwasanaeth hollbwysig hwn.

Edrychaf ymlaen i glywed yn ôl gennych yn y dyfodol agos. Mae croeso i chi godi’r ffôn neu alw heibio unrhyw dro.

Diolch am eich sylw.

Yn gywir,

Robat Jones,
PRIF SWYDDOG.

**Antur Nantlle Cyf**
Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle, 20 Heol y Dŵr, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6LR

**01286 882688** | **post@anturnantlle.com** | **www.anturnantlle.com**

Cofrestrwyd yng Nghymru fel cwmni rhif 2618216 gyda rhif TAW 560036768

Atodiad 3b

26/08/2016

Annwyl Syr/Madam,

Gan nad yw Cyngor Tref Nefyn yn cyfarfod ym Mis Awst ni fu amser digonnol i drafod ein parodrwydd  i gefnogi a chyllido Llyfrgell Gymunedol yn dilyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.  Oblegid hyn, dymunwn fwy o amser i gywain gwybodaeth angenrheidiol.

Yn ystod ein cyfarfod agoriadol cyfyd rhai cwestiynau a phryderon y gallech chi efallai eu diwallu i ni:

- Fyddai modd trefnu “asset transfer” o’r adeilad?
- Fyddai parodrwydd i atgyweirio’r difrod diweddar i’r to fflat a’r landeri cyn trosglwyddo cyfrifoldeb o’r adeilad i’r Cyngor Tref?
- Fyddai Cyngor Gwynedd yn cynnig sicrwydd nad cam cyntaf yn y bwriad o sefydlu Llyfrgell Gymunedol Cwbl Wirfoddol yw hwn.

Gydag hyn o eiriau,

Sharon Francis Williams.
(Ar ran Cyngor Tref Nefyn)

Atodiad 3c

Cyngor Tref
CRICCIETH
Town Council

**Cyngor Tref Criccieth Town Council**
11 Queen's Road/Lôn Parc | Criccieth | Gwynedd LL52 0EG

**T:** 01766 522 578
**E:** clerc.criccieth@btinternet.com

12 Gorffennaf 2016

Catrin Tomos
Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol
Adran Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
Gwynedd

Annwyl Catrin

**Llyfrgell Criccieth**

Yn dilyn eich cyflwyniad i'r Cyngor Tref ar 13 Mehefin 2016, cafodd yr aelodau y cyfle i drafod yr opsiynau yn llawn yn eu cyfarfod diweddaraf, ac wedi gofyn i mi felly i drosglwyddo eu sylwadau i chi.

1. Mae'r aelodau yn cytuno mewn egwyddor â symud y llyfrgell i Encil y Coed a dyma, yn unfrydol, yw eu hopsiwn ffafredig. Byddant yn awyddus iawn felly i drafod y cynlluniau yma ymhellach unwaith y bydd y manylion llawn wedi dod i law.

2. Pe bai Cyngor Gwynedd yn bwrw ymlaen â'r opsiwn adleoli yma, yna nid oedd yr aelodau yn glir iawn os y bydd disgwyl i'r Cyngor Tref ei hun gyfrannu yn ariannol tuag at unrhyw gostau, gan gynnwys costau adleoli a chostau cynnal a chadw, neu i gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw agwedd o'r llyfrgell yn y lleoliad newydd. Byddaf yn ddiolchgar iawn felly pe baech yn medru darparu eglurder yn hyn o beth, fel y gallaf adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Edrychaf ymlaen felly at glywed oddi wrthych ymhellach unwaith y bydd Cabinet Cyngor Gwynedd wedi trafod yr adroddiad.

Yn gywir

E A Daniels.

Eilir Ann Daniels
**Clerc Cyngor Tref Criccieth**

Atodiad 3ch


# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

*26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AE*


17fed o Awst, 2016

Catrin Thomas
Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Catrin

**Par: Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell "Mwy Na Llyfrau"**

Ymhellach i'ch llythyr dyddiedig 29ain o Fehefin, 2016 ynglŷn â'r uchod, ysgrifennaf atoch i ddatgan bod Cyngor Cymuned Bethesda yn cytuno mewn egwyddor i weithio gyda Cyngor Gwynedd i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cymunedol ym Methesda.

Yn gywir

A. Carran

p.p. Donna Watts
Clerc


CYNGOR GWYNEDD
CYFADRAN DATBLYGU
19 AWST 2016
Rhif Tracio ........................

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

*26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd LL57 3AE*
*cyngorllandygai@ogwen.org*

19/8/16

Catrin Thomas
Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Catrin

**Par: Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell "Mwy Na Llyfrau"**

Ymhellach i'ch llythyr dyddiedig 29ain o Fehefin, 2016 ynglŷn â'r uchod, ysgrifennaf atoch i ddatgan bod Cyngor Cymuned Llandygai yn cytuno mewn egwyddor i weithio gyda Cyngor Gwynedd i ddarparu gwasanaeth llyfrgell yn Nyffryn Ogwen ond angen rhagor o amser i drafod y mater ymhellach.

Yn gywir

Donna Watts
Clerc

# Atodiad 3dd

**From:** Annwen <annwen@btconnect.com>
**Sent:** 05 July 2016 10:49
**To:** Thomas Catrin (ECON A CMND)
**Subject:** RE: Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd : Cyngor Tref Harlech

Annwyl Catrin,

Diolch am yr e-bost isod ynghyd ar llythyr dyddiedig yr 28ain o Fehefin ynglyn ar mater uchod.

Yn dilyn cyfarfod o Gyngor Cymuned Harlech ar y 4ydd o'r mis hwn gofynnwyd i mi ymateb gan ddatgan siom fawr o glywed bod llyfrgell presennol Harlech yn mynd i gau a bod y gwasanaeth yn cael ei sefydlu fel "Dolen Gymunedol" a cytunwyd i wrthwynebu bod hyn yn mynd i ddigwydd i'r llyfrgell yn y dref ag hefyd datganwyd pryder bydd llai o ddefnydd yn mynd i gael ei wneud o'r gwasanaeth llyfrgell oherwydd hyn.

Yn gywir,
Annwen Hughes
Clerc y Cyngor

---

**From:** Thomas Catrin (ECON A CMND) [mailto:catrinthomas@gwynedd.llyw.cymru]
**Sent:** 30 June 2016 13:32
**To:** 'annwen@btconnect.com'
**Subject:** Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd : Cyngor Tref Harlech

Annwyl Annwen,

Atodaf lythyr er sylw aelodau Cyngor Tref Harlech yn dilyn ein cyfarfod diweddar gyda hwy.

Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i'r Cyngor ystyried y cynnwys ac ymateb fel sy'n dderbyniol iddynt.

Gyda Diolch

Catrin

Catrin Thomas
Uwch-Reolwr Dysgu Cymunedol
Cyngor Gwynedd
01286 679 913


------------------------------------------------------------

Mae'r e-bost hwn ac unrhyw atodiad iddo yn gyfrinachol ac fe'i bwriedir ar gyfer y sawl a enwir arno yn unig. Gall gynnwys gwybodaeth freintiedig. Os yw wedi eich cyrraedd trwy gamgymeriad ni ellwch ei gopio, ei ddosbarthu na'i ddangos i unrhyw un arall a dylech gysylltu â'r anfonwr ar unwaith.
Mae unrhyw gynnwys nad yw'n ymwneud â busnes swyddogol y corff sy'n anfon yr e-bost yn bersonol i'r awdur.

------------------------------------------------------------

This email and any attachments are confidential and intended for the named recipient only. The content may contain privileged information. If it has reached you by mistake, you should not copy, distribute or show the content to anyone but should contact the sender at once.
Any content that is not pertinent to the official business of the organisation is personal to the author.
----------------------------------------------------------
Arbedwch bapur, ynni ac arian - Peidiwch argraffu'r neges yma oni bai ei bod yn hollol angenrheidiol.
Save paper, energy and money - Do not print this message unless it is absolutely necessary.

Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

Clerc: Glyn E. Roberts
3 Tai Meirion
Beddgelert LL55 4NB
Ffôn: 01766 890483

glynctp@btinternet.com

Cadeirydd: Gareth Thomas
Alaw Cynfal
Penrhyndeudraeth LL48 6PR
Ffôn: 01766 770015
07855 441206
cynghorydd.GarethThomas@gwynedd.gov.uk

Mr Hywel James a Ms Catrin Thomas
Gwasanaeth Llyfrgelloedd
Cyngor Gwynedd
Caernarfon
LL55 1SH

21 Mehefin 2016

Annwyl Swyddogion,

**Par: Ail ddylunio'r gwasanaeth llyfrgell ar gyfer y dyfodol ac effaith hynny ar y ddarparieth ym Mhenrhyndeudraeth a Minffordd**

Diolch i'r ddau ohonoch am ddod at y Cyngor ar 6 Mehefin 2016.

Fe ystyriwyd y pwyntiau a godwyd yn ystod eich cyflwyniad a gofynnwyd i mi restru'r sylwadau canlynol:-

**1. Côst cynnal Llyfrgell Penrhyndeudraeth**
£26,000 oedd y swm y cyfeiriwyd ato, ond o'i dorri i lawr £5,000 oedd rhent yr adeilad. Costau cyffredinol oedd y gweddill sy'n berthnasol i bob adeilad ble bynnag y bo e.e. staffio, glanhau, trethi, yswiriant, rhwydwaith technoleg, trydan a nwy ayyb.

**2. Llyfrgell deithiol**
**2.1 Penrhyndeudraeth a Minffordd**
Deallwyd mai 1 neu 2 ymweliad y mis sy'n arferol - ymweliadau mewn 3 lleoliad ym Mhenrhydeudraeth fyddai'n ddelfrydol i ni, tra'n cadw at y trefniant presenol ym Minffordd.

**2.2 Lleoliadau ym Mhenrhyndeudraeth**
Y tri lleoliad sydd gennym mewn golwg yw Maes parcio Parc y Mileniwm, Adwy Ddu, a'r pen uchaf / Penlan. Dymunai'r Cyngor tref, os yw'n bosibl, i drefnu fod yr un/dau ymweliad y mis i'r tri lleoliad hyn yn digwydd ar rota – fyddai hyn yn caniatáu ymweliadau wythnosol ym Mhenrhyndeudraeth e.e. wythnos 1, Maes parcio Parc y Mileniwm; wythnos 2, Adwy Ddu; wythnos 3, pen uchaf / Penlan, ayyb.

**2.3 Lleoliadau ym Minffordd**
Parhau gyda'r trefniant presennol.

**3.** Cytuno ar sut i hysybsu'r defnyddwyr o'r dyddiadau / lleoliadau

**4.** Cytuno ar faint o lyfrau y gellid eu benthyg mewn mis

**5.** Parthed lleoliad y 'ddolen' – ymgynghori â'r busnesau lleol

**6.** Mae'r Cyngor yn gresynu ac yn cwyno bod toriadau ariannol y Llywodraeth yn cyfyngu'r hyn gall y Gwasanaeth Llyfrgell ei ddarparu i'r dyfodol ond yn deall bod rhaid i swyddogion Cyngor Gwynedd ymateb a gwneud newidiadau o'r herwydd.

Yn gywir,

Glyn E. Roberts - Clerc

Atodiad 3f

Menter Cymdeithasol / Social Enterprise

Deudraeth Cyf
Adeilad HSBC
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6BN
☎01766 770711
info@deudraethcyf.org.uk
www.deudraethcyf.org.uk

Catrin Thomas
Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

CYNGOR ... CYFADRAN ... 26 GOR 2016 GWASANAETH ... P Rhif trac...

Eich Cyf CT/HJ/lm

20 Gorffennaf 2016

Annwyl Ms Thomas

**<u>Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell "Mwy na Llyfrau"</u>**

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 9 Mehefin 2016, yn bennodol sefydlu Dolen Gymunedol ym Mhenrhyndeudraeth.

Mae ein Bwrdd wedi cyfarfod ac wedi trafod y mater ac yn awyddus i allu cynnig y gwasanaeth yma i'r cyhoedd os yn bosibl. Wrth ei bod yn edrych yn eithaf tebygol mai dibynnu ar wirfoddolwyr fuasai y gwasanaeth yma dymunwn gael ychydig mwy o wybodaeth fel y gweler isod :-

- A fuasai y Cyngor yn cynnig hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr yma?
- A fuasai angen gwneud ymholiadau CRB arnynt?
- Os felly, a fuasai y Cyngor yn fodlon talu am hyn? (tybiwn y gall fod hyd at 10 o wirfoddolwyr)
- Faint mae'r Cyngor yn fodlon dalu am y mynediad i'r rhyngrwyd?

Edrychwn ymlaen at dderbyn y gwybodaeth ychwanegol yma.

Yn gywir

Maldwyn Jones
Cadeirydd

Gwelliannau Amgylcheddol
Environmental Improvements

Darparwr Hyfforddiant
Training Provider

Hyfforddiant Darlledu
Broadcast Training

Cymunedau Cysylltiedig
Connected Communities

Cefnogi Cymunedau
Community Support

Rheoli Prosiectau
Project Management

Marchnata
Marketing

Cynllunio Systemau Gwe
Web Systems Development

**CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN**
LLANDDEINIOLEN COMMUNITY COUNCIL
*Clerc a Swyddog Ariannol :*
Eleri Bean
Bwthyn Isaf, Deiniolen, Caernarfon, Gwynedd LL55 3LS
Ffôn: (01286) 871 757
e. bôst – eleribean@btinternet.com

13eg Gorffennaf 2016

**Y Cynghorydd Dyfed Edwards,**
**Arweinydd Cyngor Gwynedd.**

**PAR: Llyfrgell Deiniolen - " Mwy na Llyfrau"**

**Annwyl Mr. Edwards,**

Ar Nos Fawrth, 5ed Gorffennaf, daeth Hywel James a Catrin Thomas atom i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned. Yn dilyn datganiad o'r newyddion diweddaraf yn achos toriadau llyfrgelloedd y Sir, cafwyd trafodaeth fywiog oherwydd y pryder mawr pe byddai y Llyfrgell uchod yn cau. Mynegwyd wrthym fod y cabinet yn cyfarfod ym Medi i drafod yr argymhellion a roddir iddynt ac i benderfynu yn derfynol y ffordd ymlaen ac a'i bod yn hanfodol ein bod yn cysylltu a chwi cyn diwedd y mis. Gofynnwn i chwi anfon yr ohebiaeth hon yn garedig i bob aelod o'r cabinet cyn y cyfarfod ym Medi, a diolchwn i chwi o flaen llaw am hyn.

Hoffwn yn y llythyr hwn roi i chwi ychydig gefndir a'n barn fel cyngor ar y sefyllfa.

Y gôst o gynnal Llyfrgell Deiniolen sydd wedi ei lleoli mewn ystafell yn Nhŷ Elidir, adeilad ynghanol y pentref yw £16,760.40. O'r holl lyfrgelloedd yn y sir sef 17 (heblaw Harlech) dyma'r llyfrgell a'r gôst leiaf. Defnyddir Tŷ Elidir drwy'r wythnos gan Menter Fachwen, a nhw sydd yn gyfrifol am yr adeilad. Mae Menter Fachwen yn llogi yr adeilad i gymdeithasau o fewn y pentref gyda'r nos, ac felly mae'r adeilad yn cael defnydd Cymunedol yng ngwir ystyr y gair ac mor bwysig yw hyn i'r defnyddwyr ac i brif stryd Deiniolen sydd wedi cael ei thlodi yn llwyr o siopau.

Mynegwyd wrthym gan Swyddogion y Llyfrgell fod trigolion pentref Deiniolen wedi rhoi mewnbwn hynod gynhwysfawr i'r Ymgynghoriad a fu dan arweiniad Sian Shakespear. Mae hyn i'w ganmol yn fawr wrth gwrs.

Yr ydym yn cydymdeimlo â chwi fel Cyngor tra yn delio â'r toriadau ariannol llym, ond mae yn rhaid i ni anghytuno yn llwyr a'r argymell sydd yn cael ei roi gerbron ar gyfer Llyfrgell Deiniolen. Mae'r argymhelliad o ddod a'r ddarpariaeth fel ag y mae ar hyn o bryd i ben a sefydlu "Dolen Gymunedol" yn ei le yn warth a dweud y lleiaf.

Rydym yn barod wedi rhoi cefndir o'r sefyllfa, ac nawr hoffwn gynnig opsiynau i hyn, tra mae Llyfrgell Deiniolen yn bod sef:

**1. Cwtogi defnydd y llyfrgell o 8 awr i 6**

Y llyfrgell i agor ar ddydd Mercher rhwng 2 a 6 y.p. fel y gall disgyblion Ysgol Uwchradd fynychu ac ar fore Gwener o 10 – 12yp fel y gall disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi gyda 154 0 ddisgyblion fynychu.

**2. Yr Ysgol**

Ar 24ain Mehefin, penodwyd Pennaeth newydd i Ysgol Gwaun Gynfi, a fu yn dechrau ar ei gwaith ym mis Ionawr, a chlywsom ei bod yn barod i gyd-weithio yn agos gyda'r gymuned, dywedodd fod hyn yn hanfodol o waith pob ysgol, ac yr ydym yn ymfalchio o glywed hyn. A oes modd i chwi edrych i mewn i'r posoibilrwydd o leoli llyfrgell yn yr Ysgol tybed? Byddai hyn eto yn lleihau y gôst. A oes modd i chwi drafod hyn gyda'r Pennaeth newydd a'r Corff Llywodraethol?

**3. Cyngor Cymuned**

Yr ydym fel Cyngor Cymuned wedi ymrwymo i gynorthwyo gyda'r angen i fasnachu Llyfrgell Deiniolen yn fwy helaeth a hynny nid yn unig yn Neiniolen a Chlwt y Bont, Dinorwig a'r Fachwen, ond hefyd yn yr ardaloedd cyfagos. Rydym fel cyngor yn awyddus i roi cymorth o fewn ein gallu i hyn oll oherwydd y pwysigrwydd o gadw Llyfrgell yn Neiniolen. Fel y gwelwch, rhown awgrymiadau adeiladol sy'n haeddu ymateb i gyd-weithio o du'r Sir. Gofynnwn yn garedig i chwi felly roi ystyriaeth ddwys i'r cynigion adeiladol hyn.

Gwelsom lythyr (Mehefin 13) gan Ken Skates o'r cynulliad (Ysg. Y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith) yn mynegi hyn:

**“I understand that the council (Gwynedd) will be working closely with each library to discuss the options to ensure your views are considered.”**

Yr ydym felly fel Cyngor Cymuned ar ran ardal Deiniolen wedi rhoi y dewisiad neu'r syniad uchod i chwi yn adeiladol ac mewn modd ac agwedd sy'n llawn cwrteisi.

Pryderwn os caiff llyfrgelloedd Deiniolen a Llanberis eu cau na fydd unrhyw lyfrgell ar ôl yn Nyffryn Peris-un o'r dyffrynnoedd Cymreicaf yng Nghymru. Yn y Dyffryn hwn hefyd mae mynd a dod cymdeithasol naturiol rhwng yr holl bentrefi tra mae ymweld â Meddygfeydd chânt mwy o bethau eraill yn bod. Hawdd iawn fyddai i holl drigolion y Dyffryn ddod i Lyfrgell Deiniolen fel petai -llai o deithio a chôst na gorfod mynd i lyfrgelloedd Bangor neu Gaernarfon.

Soniwyd hefyd a oes modd defnyddio peth o elw hen adeilad y ficerdy, **NODDFA**, yma yn Neiniolen tuag at gynnal y llyfrgell? Chwi fel Cyngor a ŵyr hyn.

Fe wyddom oll ni ddylid cau adnoddau gwerthfawr nad yhw'n gwneud elw ariannol oherwydd yn achos pob **LLYFRGELL** nid dyna pam y'i crewyd hwy yn y lle cyntaf **OND,**

**I GYFLAWNI RHYWBETH GWAHANOL – AC FE WYDDOM OLL FOD Y GWAHANOL HWNNW YN AMRHISIADWY.**

Erfyniwn arnoch fel aelodau o Gabinet Cyngor Gwynedd i ddarllen cynnwys ein llythyr fel Cyngor Cymuned yn fanwl a thrwyadl. Cymuned ôl-chwarelyddol yw Deiniolen sydd wedi cyfrannu llawer i fywyd gwâr ein Sir (a deil o hyd mewn llu o weithgareddau) a'n Cenedl. Gofynnen i chwi wneud eich gorau ar ein rhan.

**Yn gywir,**

*Eleri Bean*

C.C
Hywel James, Prif Lyfrgellydd
Catrin Thomas
Cynghorwyr Dyfrig Siencyn, Gareth Roberts, Gareth Thomas, John Wynn Jones, Mandy Williams-Davies, Dafydd Meurig, Peredur Jenkins, Ioan Thomas, Mair Rowlands
Mr. Ken Skates, Hywel Williams AS, Sian Gwenllian AC

Atodiad 3g


menter fachwen

Tŷ Llundain, Cwm-y-Glo, Caernarfon, Gwynedd LL55 4DT.
Ffôn/Tel: 01286 872014
Ffacs/Fax: 01286 873850
ktoms@menterfachwen.org.uk
cwilliams@menterfachwen.org.uk
cbee@menterfachwen.org.uk
www.menterfachwen.org.uk


26th July 2016


CYNGOR GWYNEDD

28 GOR 2016

P


Catrin Thomas
**Senior Manager Community Learning**
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Dear Catrin,

Thank you for your letter and the copy of Gwynedd Council's Library Service "More than Books" Strategy. I found the copy of the strategy very interesting reading.

I really enjoyed meeting with Mr Hywel James and appreciated his update on the possible changes to the Library Service in Deiniolen.

I fully understand that the Strategy is still subject to cabinet approval. I am also glad to hear that there will still be a Library Service available to the community of Deiniolen; we would like to be a part of that service as the links we form with our communities are absolutely vital to our organisational aims which are to be a valuable part of the communities we work from.

1. We would be proud to be part of a Community Link Library Service and would be very happy to house the space for a computer access point, notice board and lockable cupboard.

2. Community Link opening hours for example of Monday 15:00 – 17:00.
   The hours for access are agreeable to us and we do have the staff available to facilitate this. We have trained and experienced staff, all of whom are DBS checked (Disclosure Barring Service)

   One member of staff who is very keen to be part of the project perhaps running an after school homework club for young people who may not have a computer at home, is a qualified teacher PGCE in Further Education and she has been teaching IT for many years.

3. The idea of Free Public access to Wi-Fi is also agreeable to us and we run a similar project and have done for many years in Cwm y Glo. This has been a great success and it continues to work well, again, this is because the connections we make with our communities are very important to us. The hours we would be available would be 09:00 – 16:00 Monday to Friday.

4. We are also keen to set up a book swop club, so if there were some book shelves available if and when the library closes we would really appreciate this.

Ty Elidir is used by many groups of people of all ages.

We are enjoying sharing the building with the community, the caretaking duties provide a wealth of tasks for our staff and service users to perform.

I hope you think we are capable of running a successful Community Link Library Service, because we would see this project as an extension of the service we are already providing in Ty Elidir and across the road in EB's Cafe - which I think are both much appreciated by the people of Deiniolen.

I look forward to hearing from you and I hope the Cabinet will look favourably on our suggestions.

Yours truly,

CMToms.

Catherine Mary Toms (Kate)
**Chief Executive Officer**